Adroddiad ar

# Meithrinfa Garth Olwg

Campws Cymunedol Garth Olwg
St IIItuds Road
Pentre'r Eglwys
Pontypridd
CF38 1RQ

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Meithrinfa Garth Olwg

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Garth Olwg |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Mudiad Meithrin Cyf |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Leanne Marsh, Gwenllian Lansdown Davies |
| Person â gofal | Demileigh Sweeney; Ellie Harrison; Bethan Davies; Hannah Doggett |
| Nifer y lleoedd | 60 |
| Amrediad oedran y plant | 6 wythnos i 4 blwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 22 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 18 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 7.30yb i 5.00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 17 Ebrill 2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/03/2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/06/2025 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Digonol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Digonol** |
| **Yr amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r PC/UC roddi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u bod yn cael eu gweithredu'n rheolaidd

A3 Datblygu ymhellach y defnydd o arsylwadau a chyfleoedd asesu a'u defnyddio i gefnogi plant yn fwy effeithiol yn eu chwarae a'u dysgu

A4 Sicrhau cysondeb mewn gweithdrefnau ar draws y ddarpariaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae plant yn cyfathrebu'n hyderus, ac ar y cyfan, mae eu dymuniadau a'u hanghenion yn cael eu hystyried. Mae plant yn cael cyfleoedd addas i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt; er enghraifft, maent yn dewis ble i eistedd ar gyfer amser byrbryd ac yn rhydd i adael y bwrdd yn annibynnol. Mae diddordebau'r plant yn cael eu hystyried a'u parchu. Maent yn gwneud penderfyniadau ac yn mynegi barn wrth ddewis ble i chwarae yn yr ardaloedd tu fewn ac yn rhydd i gwblhau tasgau yn eu hamser eu hunain.

Mae llawer o blant yn ymgartrefu'n dda ar ôl cyrraedd, ac mae eu hanghenion unigol yn cael eu cefnogi. Mae'r plant hynny sy'n dangos ansicrwydd yn cael cysur a chefnogaeth hyd nes eu bod yn ymdawelu ac yn mynd i chwarae pan fyddant yn barod. Mae'r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus i edrych am sicrwydd, pan fo angen. Maent yn gyfarwydd â threfniadau'r dydd, gyda'r plant hŷn yn dangos ymwybyddiaeth dda trwy roi bag a chot ar fachyn wrth gyrraedd a gwisgo esgidiau glaw yn annibynnol i fynd allan.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cydweithio'n dda yn unol â'u hoed a'u cam datblygiad. Mae plant iau a babanod yn chwarae gyda'i gilydd yn briodol. Wrth fynd yn hŷn, mae plant yn dechrau ffurfio perthnasoedd ac yn chwarae'n fwy bwriadus â'i gilydd. Maent yn siarad â'i gilydd yn gyffrous wrth gropian trwy dwnnel cardfwrdd ac yn trafod yn fyrlymus wrth chwarae â'r dinosoriaid. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthynas bositif ag ymarferwyr, ac yn ymateb yn briodol i'w cwestiynau a'u hawgrymiadau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau cyfleoedd hir o chwarae di-dor ac yn dysgu'n dda oddi wrth ei gilydd. Maent yn dangos diddordeb naturiol yn eu hardaloedd perthnasol ac yn ymgysylltu'n dda â'r rhan fwyaf o'r profiadau sydd ar gael iddynt. Mae llawer o'r babanod a phlant ifanc yn mwynhau rhyddid i archwilio eu hamgylchedd ac yn elwa o'r gweithgareddau a ddarperir. Mae mwyafrif o'r plant hŷn yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig wrth ymgolli  mewn gweithgareddau o'u dewis, er enghraifft wrth chwarae yn y tywod neu ddal petalau blodau yn y dŵr. Mae mwyafrif o blant yn hapus i ymuno â gweithgareddau grŵp fel canu neu amser stori. Er hyn, mae tuedd gan leiafrif i golli diddordeb a tharfu ar fwynhad eraill.

Mae llawer o blant yn datblygu i fod yn ofalgar a pharchus. Maent yn dangos empathi at eraill ac yn synhwyro pan fydd cyfoedion eisiau llonydd i fod ar eu pen eu hunain neu i fyfyrio. Mae'r mwyafrif o blant iau yn datblygu eu medrau hunangymorth yn dda wrth iddynt ddysgu rheoli eu gofal personol a bwydo eu hunain. Wrth iddynt ddatblygu drwy'r

lleoliad, maent yn adeiladu ar y medrau hyn ac yn dangos annibyniaeth dda wrth weini grawnfwyd amser brecwast ac arllwys dŵr i yfed.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae llawer yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn ac yn datblygu ystod o fedrau yn effeithiol wrth chwarae a dysgu. Maent yn gwrando ar, ac yn ymateb i, gyfarwyddiadau oedolion yn briodol, ac yn barod i ddilyn cyfarwyddyd oedolyn i dacluso ar gyfer amser cylch. Mae'r mwyafrif o blant yn datblygu medrau darllen cynnar yn addas. Maent yn adnabod eu henwau wrth eu bachyn ac yn dewis llyfrau o'r fasged ddarllen gan bwyntio at luniau a chreu eu stori eu hunain yn uchel wrth gyfaill. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus ac yn mwynhau marcio i bwrpas. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio clipfyrddau a phapur i lunio rhestr siopa neu dynnu llun Mistar Urdd i gofnodi ymweliad i Eisteddfod. Er bod y Gymraeg yn newydd i'r rhan fwyaf o blant, mae llawer yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ystod o eirfa Gymraeg ac yn ymuno'n briodol wrth ganu caneuon a rhigymau yn ystod amser cylch. Er hyn, prin maent yn mentro i arbrofi a defnyddio gerifa allweddol fel 'ga i…' a 'diolch' mewn sgyrsiau gydag oedolion.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd cadarn ac yn defnyddio iaith fathemategol yn gynyddol gywir. Maent yn dechrau enwi siapiau 2D syml yn gywir wrth gyfatebu siapiau sgwâr a thriongl ac yn dangos gafael gynyddol ar iaith fathemategol wrth drafod llawn a gwag wrth chwarae gyda chynwysyddion yn y twba dŵr. Er hyn, nid ydynt bob amser yn ymddiddori'n naturiol mewn gweithgareddau sydd wedi cael eu cynllunio'n fwriadus ar gyfer gwella eu dealltwriaeth o rif sy'n cyfyngu eu gallu i gymhwyso eu medrau wrth chwarae.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn ymdrin â gwrthrychau mân fel peli pom pom a phetalau blodau yn fanwl gywir. Maent yn creu marciau yn ofalus gan reoli brwsys paent a chreonau yn bwrpasol ac effeithiol. Yn ogystal, mae llawer o blant yn datblygu eu medrau corfforol mawr drwy fynd ar gefn beiciau yn yr ardal tu allan yn hyderus.

Mae bron bob plentyn yn datblygu eu medrau digidol yn llwyddiannus ac yn deall bod offer digidol yn cael effaith ar eu bywydau bob dydd. Maent yn defnyddio tafol ddigidol wrth goginio yn y gegin chwarae rôl ac yn chwarae gyda ffônau digidol yn bwrpasol. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn fedrus, er enghraifft wrth chwarae'n ddychmygus yn yr ardal gwisgo i fyny. Maent yn hyderus wrth estyn offer creadigol yn annibynnol ac yn eu defnyddio i bwrpas yn yr ardal allanol a thu mewn. Mae llawer o blant yn mwynhau defnyddio offer taro a chwythu yn yr ardal gerddorol ac yn cael pleser wrth eu defnyddio mewn sawl ardal ar draws y ddarpariaeth. Mae mwyafrif y plant yn

cydweithio â'i gilydd yn aeddfed ac yn dangos dyfalbarhad wrth ddatrys problemau, er enghraifft trwy helpu ei gilydd i adeiladu tŵr uchel o flociau magnetig.

Mae'r plant yn datblygu medrau personol, moesol a chymdeithasol da. Mae bron bob un yn ofalgar iawn o'i gilydd, yn gwrando ar eu cyfoedion ac yn barod iawn i ddatrys anawsterau yn annibynnol pan fydd gwrthdaro yn codi. Maent yn cyd-chwarae'n dda, yn rhannu adnoddau yn naturiol ac yn barod i chwilio am adnodd sydd ei angen ar ffrind. Enghraifft dda o hyn yw plant yn rhannu adnoddau yn y twba dŵr ac yn helpu ei gilydd i arllwys hylif o un gwrthrych i'r llall ac yn cynnig rhagor pan fydd plentyn yn datgan nad yw ei gynhwysydd yn llawn ond yn parchu ei ddymuniad pan nad yw angen cymorth.

## Gofal a datblygiad:  Digonol

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth briodol o'u cyfrifoldebau o sut i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Ar y cyfan, maent yn gweithio tuag at weithredu'r rhan fwyaf o'u polisïau a'u gweithdrefnau er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol a llesiant. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cynnal asesiadau risg gweledol dyddiol ac yn ymateb yn addas i risgiau wrth iddynt godi. Maent yn annog plant i ddilyn arferion hylendid, er enghraifft wrth iddynt olchi eu dwylo cyn bwyd neu sychu trwyn. Mae posteri anghenion bwyd yn cael eu harddangos yn glir, ac mae ymarferwyr yn ymwybodol o'u dyletswyddau i ddiogelu plant yn ystod cyfnodau bwyta. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn cadw cofnodion addas o feddyginiaeth, damweiniau, digwyddiadau ac anaf presennol sy'n cael eu cydnabod gan rieni. Er hyn, nid ydynt bob amser yn diweddaru gwybodaeth yn ddigon amserol, er enghraifft gofynion bwyd a phatrymau cysgu. Mae system addas ar waith i ymarferwyr gofrestru presenoldeb plant a phwy sydd â'r gofal amdanynt.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn annog plant i dacluso wrth symud o un weithgaredd i'r llall. Er hyn, nid ydynt yn dilyn gweithdrefnau hylendid yn ddigon cyson ar draws y lleoliad, gan gynnwys trefniadau newid cewynnau. Ar y cyfan, mae arweinwyr yn trefnu cymhareb staff briodol ar gyfer bodloni anghenion y rhan fwyaf o blant. Fodd bynnag, ar adegau o'r dydd, nid yw'r trefniant mewn ardaloedd penodol yn ddigon addas ac mae hyn yn arwain at gyfnodau pan nad oes digon o staff i scrhau y gofal priodol i nifer y plant.  Nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac maent yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn rhyngweithio mewn modd cynnes a charedig. Maent yn siarad yn glir ac yn magu hyder plant i ddeall iaith a rhoi cynnig. Mae ymarferwyr yn gweithio'n galed i hybu ethos o rannu a chymryd tro. Maent yn rhannu agwedd bositif tuag at reoli ymddygiad plant ac yn dilyn polisi'r lleoliad yn effeithiol. Maent yn canmol plant am fod yn garedig neu am rannu adnoddau ac mae hyn yn cael effaith fuddiol ar ymddygiad a hunan-barch plant.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn darparu gweithgareddau chwarae addas sy'n datblygu medrau'r plant a dilyn eu diddordebau yn briodol. Ar y cyfan, maent yn ymwybodol o ddatblygiad unigol pob plentyn ac yn cadw cofnodion digonol. Wrth arsylwi ar blant, maent yn dechrau cofnodi eu cyflawniadau ac yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau dyddiol gyda rhieni trwy luniau ar gyfrwng electroneg. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn gweithio'n galed i fodloni gofynion unigol pob un. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r camau i'w cymryd pan fyddant yn pryderu am ddatblygiad plentyn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ac yn dilyn camau priodol i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Digonol

Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n annog datblygiad cyffredinol plant yn briodol. Maent yn dechrau cynllunio gweithgareddau sy'n bodloni gofynion Cwricwlwm i Gymru drwy sicrhau cyfleoedd pwrpasol i blant wneud dewisiadau ynglŷn â'u chwarae. Maent yn trefnu'r amgylchedd mewn modd sy'n sicrhau bod yr holl adnoddau o fewn cyrraedd, sy'n cyfrannu at lwyddiant y plant i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae ymarferwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd gadael i blant ddysgu drwy chwarae, ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt chwilota, arbrofi a datrys problemau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus annibynnol sy'n barod iawn i roi cynnig ar brofiadau newydd. Mae ymarferwyr yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu apelgar yn yr ardal tu fewn sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant. Er hyn, nid ydynt yn gwneud defnydd llawn o gyfleoedd bwriadus i ddysgu yn yr ardal allanol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ystod o brofiadau sy'n cyd-fynd â diddordebau'r plant yn effeithiol. Er enghraifft, yn dilyn trafodaeth dosbarth, cynlluniwyd gweithgaredd chwarae yn ardal y byd bach i ddatblygu dealltwriaeth plant o ddiwrnod ar lan y môr. Mae plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymgolli yn eu chwarae a datblygu eu medrau corfforol, creadigol a chymdeithasol. Cânt gyfleoedd i chwarae rôl a defnyddio'u dychymyg a'u brwdfrydedd i ail-fyw profiadau go iawn, er enghraifft drwy chwarae'n fwriadus gyda phypedau ac efelychu sgwrs rhwng mam a phlentyn. Mae ymarferwyr yn sicrhau rhyddid a dewis i blant gael mynediad at offer a theganau yn yr ardal fewnol sy'n eu galluogi i gael cyfnodau hir o chwarae di-dor. Mae'r ddarpariaeth apelgar hyn yn rhoi cyfle i bob un plentyn chwarae a chanolbwyntio am gyfnodau estynedig.

Yn dilyn hyfforddiant ac arweiniad gan yr awdurdod lleol, mae ymarferwyr yn datblygu eu gallu i gofnodi arsylwadau a chyflawniadau plant. Ar y cyfan, maent yn cywain gwybodaeth am ddiddordebau'r plant a'r hyn maent yn ei wneud yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn arsylwi ar y plant yn ddigon rheolaidd ac nid yw eu harsylwadau'n canolbwyntio'n ddigon manwl ar ddatblygiad y plentyn unigol. O ganlyniad, nid yw eu

hasesiadau'n ddigon cadarn i nodi'r cam nesaf yn y dysgu, nac yn ddigon effeithiol i fod o ddefnydd ymarferol wrth gynllunio. Maent yn dangos ymwybyddiaeth fwriadus i ymyrryd yn chwarae'r plant a chefnogi eu dysgu; er hyn, mae eu hansicrwydd a'u diffyg dealltwriaeth yn cyfyngu eu parodrwydd i wneud hynny. O ganlyniad, nid yw ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd cyson i ddatblygu a dyfnhau dealltwriarth plant mewn agweddau allweddol o'u datblygiad, fel y Gymraeg a mathemateg. Mae'r ymarferwyr yn ymgysylltu'n effeithiol â rhieni a gofalwyr trwy rannu lluniau a chofnod o gyflawniadau'r plentyn drwy gyfryngau digidol.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad iaith y plant drwy fod yn fodelau iaith dda ac yn sicrhau bod caneuon a rhigymau Cymraeg i'w clywed yn gyson yn ystod y dydd. Er hyn, prin yw eu disgwyliadau o ran annog plant i ymateb a defnyddio eu dealltwriaeth o eirfa Gymraeg. Maent yn cynllunio cyfleoedd addas i blant ddysgu am Gymru trwy edrych ar gestyll yr ardal a datblygu'r ymdeimlad o berthyn trwy ymweld â siopau ac adeiladau crefyddol lleol. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn briodol. Maent yn sicrhau bod plant yn datblygu empathi at bobl a phlant eraill, er enghraifft wrth wisgo mewn porffor i godi ymwybyddiaeth o epilepsi.

### Yr amgylchedd: Digonol

Mae ymarferwyr wedi creu amgylchedd croesawgar sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at sicrhau bod y rhan fwyaf o'r plant yn hapus wrth gyrraedd. Yn gyffredinol, maent yn darparu amgylchedd diogel a glân lle nad oes modd cael mynediad oni bai bod aelod staff yn agor y brif fynedfa. Mae arweinwyr yn cadw cofnod ymwelwyr yn effeithiol, yn dilyn trefniadau clir ynglŷn â pherygl tân ac yn gweinyddu prosesau cofrestrau cywir i staff a phlant. Mae gofynion rheoliadol o ran diogelwch yr adeilad yn gywir ac maent yn gweithio'n agos â gofalwr y campws i sicrhau gweithdrefnau cadarn. Mae arweinwyr yn cadw ystod o asesiadau risg sy'n codi ymwybyddiaeth y staff o'r angen i gadw plant yn ddiogel; fodd bynnag, nid ydynt yn cael eu hadolygu'n rheolaidd nac yn cael eu dilyn gan y staff yn gyson gywir. Er enghraifft, er i asesiad risg ddatgan na ddylai plant gerdded yn rhydd rhwng un ystafell ofal a'r llall, ceir adegau pan mae ymarferwyr yn caniatáu i hyn ddigwydd.

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd croesawgar a chyfoethog sy'n cynorthwyo plant i ddysgu a chwarae'n llwyddiannus ym mhob ystafell. Maent wedi cydweithio i drefnu cyfarpar tebyg sy'n creu cysondeb yn y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae plant yn teimlo'n gyffyrddus wrth iddynt ddatblygu a symud drwy'r lleoliad. Mae'r amgylchedd wedi ei drefnu mewn modd sy'n galluogi plant i gael mynediad rhwydd i i'r holl ardaloedd chwarae a chyfleusterau pwrpasol. Mae arweinwyr yn darparu trefniadau priodol i blant gysgu neu orffwys yn ddiogel ac yn gyffyrddus. Mae gan y plant hŷn fynediad at doiledau

yn uniongyrchol o'u hystafelloedd chwarae sy'n cefnogi eu hannibyniaeth ac yn datblygu eu gofal personol yn dda.

Mae'r adnoddau a'r ddarpariaeth tu fewn o safon dda ac wedi eu trefnu i gynnig ardaloedd chwarae diddorol a chyffrous i blant megis ardaloedd tywod, celf, marcio, arbrofi, darllen a mannau ymlacio. Mae'r ystafelloedd yn olau ac awyrog ac mae'r adnoddau, teganau a'r cyfarpar chwarae yn lân ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae'r celfi isel wedi eu gosod mewn modd sy'n sicrhau bod adnoddau o fewn cyrraedd ar lefel y plant. Mae'r silffoedd agored a bocsys yn galluogi i'r plant fynd at amrywiaeth o ddelweddau a chymhellion sy'n addas i'w hoed. Mae adnoddau'r ardal allanol yn hybu medrau corfforol mawr yn briodol trwy ddarparu cyfarpar dringo a beiciau.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

Mae gan yr arweinydd ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun ac mae'n adnabod y lleoliad yn dda. Mae'n cymryd rôl weithgar yn y lleoliad ac yn hyrwyddo ethos positif, cynhwysol a gweithgar. Gyda'i gilydd, mae arweinwyr yn gweithredu eu gweledigaeth i gynnig cyfleoedd i bob plentyn ddysgu trwy chwarae mewn awyrgylch hapus a chartrefol. Maent yn trafod elfennau rheolaethol yn gyson ac yn gwneud defnydd da o'r cyllid ac arian grant i ddatblygu'r lleoliad ymhellach. Er enghraifft, mae buddsoddiad diweddar mewn adnoddau byd bach wedi cyfoethogi'r ardaloedd dysgu a gwella creadigrwydd plant wrth chwarae.

Wrth i blant ddechrau yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn cysylltu â rhieni a gofalwyr er mwyn canfod anghenion a diddordebau eu plant. Maent yn rhannu gwybodaeth gyffredinol, lluniau plant wrth eu gweithgareddau ac unrhyw ddiweddariadau, gan ddefnyddio dull electronig yn rheolaidd. Mae hyn yn cadw'r rhieni yn ymwybodol o ddigwyddiadau dyddiol y lleoliad yn effeithiol. Er hyn, nid ydynt bob amser yn sicrhau bod rhieni'n derbyn gwybodaeth gyson am ddatblygiad eu plentyn dros gyfnod o amser.

Mae'r lleoliad yn rhannu gwybodaeth fuddiol â'r ysgol gynradd leol sy'n golygu bod trefniadau trosglwyddo plant o'r lleoliad i'r ysgol yn llwyddiannus. Mae bron bob plentyn yn trosglwyddo gyda'i gilydd sy'n eu cefnogi i ymgartrefu'n fuan a pharhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu ar gyngor defnyddiol swyddogion y mudiadau cefnogi.

Mae gan y lleoliad drefniadau hunanwerthuso addas. Maent yn casglu gwybodaeth gan rieni a staff ac yn adnabod y meysydd o fewn y ddarpariaeth sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i drefnu hyfforddiant addas sy'n cryfhau gallu unigolion i gynnig darpariaeth addas. Fodd bynnag, mae newid rheolaidd yn staffio'r lleoliad wedi arwain at anghysondeb mewn nifer o weithdrefnau sy'n effeithio ar eu gallu i sicrhau y gofal gorau.

Mae’r datganiad o ddiben yn gyfredol ac yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gallu gwneud dewis gwybodus am ofal eu plentyn. Mae’r arweinwyr yn dilyn polisïau recriwtio diogel ac mae gan bob ymarferydd gymhwyster priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn sicrhau eu bod yn bodloni cymarebau staffio; er, nid yw’r trefniadau hyn bob amser yn gywir ac felly nid ydynt yn bodloni gofynion ac anghenion y plant trwy’r amser. Mae'r arweinwyr yn cynnal arfarniadau blynyddol gyda staff sy’n sicrhau eu bod yn trafod eu hymarfer, yn rhannu syniadau ac yn sicrhau bod staff yn cael mynediad at hyfforddiant craidd. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cynnal goruchwyliaethau rheolaidd gyda staff.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2025